**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Nick Ramsay AM

Cadeirydd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Medi 2018

Annwyl Nick

**Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood**

Gwyddoch fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi adroddiad ffeithiau yn unig yn edrych ar Berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood yn ddiweddar. Roedd hyn yn dilyn y diddordeb yn y mater gan nifer o Aelodau'r Cynulliad dros gyfnod o flynyddoedd, ac a oedd wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth yn esbonio natur y berthynas.

**Y cefndir**

Yn 2014, prynodd Llywodraeth Cymru safle'r hen Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg i'w ddatblygu fel stiwdio ffilm a theledu mewn cydweithrediad â Pinewood Shepperton Plc. Yn fuan wedyn, fe wnaeth Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymrwymo i 'Gytundeb Cydweithredol' gyda dau is-gwmni newydd dan berchnogaeth Pinewood. Roedd y cytundeb yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn:

- prydlesu stiwdio Gwynllŵg i Pinewood;
- sefydlu Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn (y byddai Pinewood yn dod o hyd i gynyrchiadau addas ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru ar ei chyfer); a
- noddi Pinewood i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio a'r gyllideb fuddsoddi.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Pinewood i 'Gytundeb Gwasanaethau Rheoli' newydd ar 1 Tachwedd 2017.

Mae'r cytundeb newydd hwn mewn dwy ran: sef, gwerthiant a marchnata'r stiwdio a'r gwasanaethau rheoli a gweithredu'r stiwdio. Caiff y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau bellach ei rheoli gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Amcangyfrifir bod y gost net

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

blynyddol i Lywodraeth Cymru o ran y cytundeb gwasanaethau rheoli yn £392,000 (ynghyd â ffi rheoli flynyddol ychwanegol i Pinewood, a ailolygwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar sail sensitifrwydd masnachol).

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r rhagamcaniadau ariannol cyfredol ar gyfer y berthynas hon yn cynrychioli gwerth da am arian. Fodd bynnag, yn eu barn hwy, roedd yn fwy manteisiol i ymrwymo i gytundeb tair blynedd newydd gyda Pinewood oherwydd y posibilrwydd y gellid creu rhywfaint o refeniw masnachol, o gymharu â'r costau y byddai Llywodraeth Cymru wedi'u hwynebu o adael y safle yn wag tra'u bod yn chwilio am denant newydd.

Pan gyhoeddwyd yr adroddiad, roedd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn agos at ddiwedd ei ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr. Mae perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood yn rhan allweddol o'i chefnogaeth i'r diwydiant hwn. O'r herwydd, pan gyhoeddwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, roedd y Pwyllgor yn awyddus i fynd i'r afael â'r materion a godwyd, gyda Llywodraeth Cymru, gyda chadeirydd Panel Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru (Mr Ron Jones) a chyda Pinewood ei hun.

Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth lafar gan Mr Jones, gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ken Skates AC), gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (Dafydd Elis-Thomas AC) a chan swyddogion Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y sesiynau hyn ar 20 Mehefin 2018 a 12 Gorffennaf 2018. Gan nad oedd Pinewood yn gallu bod yn bresennol ar gyfer cyfarfod cyn toriad yr haf, mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at y cwmni gyda chyfres o gwestiynau.

Hefyd, cafodd Aelodau'r Pwyllgor sesiwn briffio preifat gan swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yn ein cyfarfod ar 28 Mehefin, pan oedd Lee Waters AC yn bresennol fel Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd Adam Price AC hefyd yn gallu bod yn bresennol yn ein cyfarfod ar 12 Gorffennaf fel Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gallodd ofyn rhai cwestiynau'n uniongyrchol i Weinidogion a swyddogion.

Mae'r Pwyllgor wedi edrych ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood fel elfen allweddol o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r diwydiant sgrin. Bydd yn adrodd ar y berthynas yng ngoleuni hyn yn yr hydref. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, fodd

bynnag, a'r dystiolaeth ddilynol y mae'r Pwyllgor wedi'i chael, yn amlygu nifer o feysydd sy'n peri pryder ac y mae'n credu sy'n haeddu rhagor o waith craffu gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd y pryderon hynny yn cynnwys:

- **Tryloywder**: mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod droeon, yn dilyn cwestiynau gan Aelodau Cynulliad unigol, i ddatgelu manylion ei pherthynas â Pinewood nac i ymateb ar y berthynas ac yn benodol ei fuddion mesuradwy, gan nodi bod hyn oherwydd sensitifrwydd masnachol. Fodd bynnag, mae adroddiad y Swyddfa Archwilio, y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Pinewood, yn eithrio dim ond gwerth y ffi reoli y mae Llywodraeth Cymru yn talu Pinewood ar hyn o bryd. Ym marn y Pwyllgor, roedd diddordeb mawr gan y cyhoedd mewn datgelu cymaint o fanylion ar y berthynas rhyngddynt â phosibl.  Er ein bod yn derbyn bod sensitifrwydd masnachol yn bwysig, mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru a Pinewood nawr yn derbyn bod llawer o'r hyn a ystyriwyd yn gyfrinachol yn flaenorol bellach yn cael ei ryddhau, mae'n ymddangos, yn dangos y dylid bod wedi gwneud rhagor i wella tryloywder yn gynharach. Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n sylweddol, er gwaethaf ceisiadau am wybodaeth gan amrywiol Aelodau'r Cynulliad, pe na bai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gyhoeddi, ni fyddai'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd o hyd, a byddai Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yng Nghymru yn dal yn y tywyllwch am union natur y berthynas hon.
- **Natur yr eiddo**: Wedi i Lywodraeth Cymru gaffael yr hen Ganolfan Ynni, roedd angen iddi wneud gwaith atgyweirio brys i'r to a oedd yn gollwng, a oedd yn costio £979,000. Clywodd y Pwyllgor. ar 12 Gorffennaf. nad oedd y gwaith angenrheidiol i atgyweirio'r to wedi'i nodi cyn prynu'r adeilad gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg llawn o'r adeilad, dim ond prisiad. Roed yr adroddiad prisio hwn yn nodi: "Ni nodwyd unrhyw ddiffygion neu eitemau atgyweirio brys neu arwyddocaol a fyddai'n debygol o arwain at wariant sylweddol yn y dyfodol agos". Mae'r Pwyllgor yn synnu nad oedd prynu eiddo gwerth mwy na £6 miliwn yn destun arolwg adeiladu mwy cynhwysfawr, a byddem yn disgwyl bod hynny'n arfer cyffredin gyda phryniant o'r gwerth hwn. Nid yw'r Pwyllgor yn fodlon ag ymateb y Llywodraeth ar y pwynt hwn.
- **Cytundeb nawdd:** fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredol, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'gytundeb nawdd' gyda Pinewood Studio (Wales) Ltd am gost

flynyddol o £438,000 am y pum mlynedd o fis Mawrth 2014 tan fis Mawrth 2019. Yn fuan ar ôl llofnodi'r Cytundeb Cydweithredol, sylwodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod TAW wedi'i hepgor o'r cytundeb nawdd gwreiddiol, felly cododd y taliadau blynyddol i £525,000. Mae'r camgymeriad hwn a'r atgyweiriadau to nas rhagwelwyd a grybwyllir uchod yn codi pryderon am faint o ddiwydrwydd dyladwy a ddangoswyd yn ystod y gwaith hwn. Yn benodol, mae'n anodd deall sut na ellid fod wedi deall goblygiadau'r TAW a hwythau wedi cael cyngor arbenigol.

- **Y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau**: O dan y cytundeb cydweithredol gwreiddiol, roedd Pinewood yn rheoli'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gronfa hon wedi tanberfformio o gymharu â'r rhagolygon, o ran faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fuddsoddi, a faint o wariant y mae hyn wedi'i ysgogi yn economi Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i dderbyn enillion ar y buddsoddiad hwn, ond nid yw'r derbyniadau cychwynnol yn edrych yn addawol. Mae Pinewood wedi ymwneud â chronfa debyg ar Ynys Manaw: nid yw'n glir, ar hyn o bryd, i ba raddau y dylai perfformiad y gronfa honno fod wedi peri i swyddogion Llywodraeth Cymru fod â phryderon ynghylch ymwneud Pinewood â chronfa debyg yng Nghymru.
- **Gwrthdaro buddiant**: Ym mis Awst 2016, ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn nodi pryderon am berfformiad y Gronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys y gallai Pinewood wynebu gwrthdaro am ei ymwneud â'r gyllideb ac yntau â buddiant ynddi (nad yw'n arfer wedi'i wahardd o dan y Cytundeb Cydweithredol) wrth ddarparu ei wasanaethau ei hun yn Llundain i'r diwydiant. Mae'r Pwyllgor wedi cael rhywfaint o dystiolaeth sy'n gwrthdaro ynghylch i ba raddau yr oedd y mater hwn wedi'i gynnwys yn y cytundeb gwreiddiol. Pan ofynnwyd, ar 20 Mehefin, pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi'r gwrthdaro buddiannau posibl ar ddechrau'r berthynas gyda Pinewood, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

  "…a conflict of interest was covered in the original agreement".

  Nid yw'n ymddangos bod adroddiad y Swyddfa Archwilio yn ategu'r honiad hwn. Mae'r adroddiad yn nodi, o ran darparu gwasanaethau Pinewood i'r diwydiant o Lundain, "nid yw hyn wedi'i atal o dan y Cytundeb Cydweithredol". Efallai y bydd

eich Pwyllgor am gael rhagor o esboniad ar y dystiolaeth hon sy'n ymddangos fel pe bai'n gwrthdaro.

- **Amcangyfrifon refeniw**: mae Llywodraeth Cymru wedi dweud, er gwaethaf y refeniw a amcangyfrifir yn flynyddol o £714,000, bydd stiwdio Pinewood yn parhau i redeg ar golled flynyddol o fwy na £392,00 (nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys ffi rheoli, y mae ei werth wedi'i ailolygu yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru). Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth yr Aelodau fod Pinewood ar hyn o bryd yn "gweithredu ar gapasiti". Nid yw'r Pwyllgor yn eglur beth yw ystyr "ar gapasiti" yn union, ac a yw'r refeniw amcangyfrifedig blynyddol wedi'i ddiwygio yng ngoleuni'r ffaith hon. Roedd gohebiaeth ddiweddar gan Pinewood yn nodi mai'r gyfradd deiliadaeth yr adeiladau ar gyfer Cyfnodau 1-3, sef o fis Tachwedd 2017 hyd ddiwedd mis Mehefin 2018 oedd 44.12 y cant. Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn edrych ymhellach ar sut y mae hyn yn gyson â datganiad Ysgrifennydd y Cabinet fod y stiwdio yn "gweithredu ar gapasiti".
- **Gwerth gwaith a wnaed gan Pinewood**: Roedd y Cyngor Gweinidogol a baratowyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd argymell y dylid terfynu'r contractau gwreiddiol â Pinewood (y Cytundeb Cydweithredol a'r Cytundeb Prydlesu) yn datgan bod 'Pinewood wedi gwario tua £800,000 yn cynnal gwaith ac yn buddsoddi mewn offer'. Daeth yn amlwg, fodd bynnag, nad oedd Llywodraeth Cymru yn gwybod gwerth y gwaith a wnaed gan Pinewood, ac nad oedd gwerth y gwaith hwn wedi'i nodi yn y Cytundeb i Brydlesu'r safle. Ymdriniwyd ā'r mater hwn yn y sesiwn gyda'r Gweinidog a swyddogion ar 12 Gorffennaf, er bod yr Aelodau'n teimlo bod y mater hwn yn haeddu rhagor o waith craffu, yn bennaf oherwydd y byddem yn disgwyl y byddai atodlen o waith sy'n ofynnol wedi'i hatodi i unrhyw gytundeb prydlesu.
- **Adeilad Rhestredig**: Cynhwyswyd ffermdy rhestredig Gradd II adfeiliedig fel rhan o safle'r Ganolfan Ynni. Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod y Gweinidog yn dweud wrthym yn ei dystiolaeth na fydd Llywodraeth Cymru ond yn gweithio ar y ffermdy os bydd yr awdurdod cynllunio lleol neu Cadw yn ei gwneud yn ofynnol iddi wneud hynny.

Dyma'r prif faterion sy'n peri pryder i'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylid craffu rhagor ar y berthynas. Bu ffocws y Pwyllgor hwn, fodd bynnag, ar y materion

polisi ehangach, ac rydym o’r farn y byddai’r berthynas rhwng y Llywodraeth â Pinewood yn elwa pe bai y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhoi ffocws ar y gwerth am arian a’r llywodraethu yn hyn o beth.

Mae Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn adroddiad "ffeithiau yn unig", sy’n golygu nad yw’n cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Er y bydd ein gwaith ar ddiwydiant y sgrin yn sicr yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â Pinewood, teimlwn mai’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sydd yn y sefyllfa orau i helpu Llywodraeth Cymru i ddysgu’n adeiladol o’r bennod hon o ran gwerth am arian a materion llywodraethu.  O gofio’r pryderon yr ydym wedi’u hamlinellu, gobeithiwn y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gofyn i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru y tro hwn.

O ganlyniad, byddwn yn ddiolchgar pe bai’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn awr yn ystyried perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood a’r materion llywodraethu a gwerth am arian a godwyd gan adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

Rwyf wedi gofyn i’r swyddogion sy’n cefnogi’r Pwyllgor i gysylltu â’u cydweithwyr sy’n cefnogi’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, i sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynorthwyo’r Pwyllgor hwnnw i fwrw ymlaen â’r mater hwn.

Yn gywir

Bethan Sayed.

**Bethan Sayed AC**
Cadeirydd